**YR ATODLEN**

**Gwasanaethau a Threuliau y gall Swyddog Canlyniadau Etholaeth neu Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol mewn Etholiad Cynulliad Adennill Taliadau mewn perthynas â hwy.**

# RHAN II

## Treuliau Swyddog Canlyniadau Etholaethol neu Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol y Pennir Uchafsymiau y gellir eu hadennill ar eu cyfer

### Talu swyddogion llywyddu mewn gorsafoedd pleidleisio

**3.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gwneud darpariaeth ar gyfer treuliau swyddog canlyniadau etholaeth mewn etholiad Cynulliad mewn perthynas â thalu swyddogion llywyddu mewn gorsafoedd pleidleisio.

(2) Yn ddarostyngedig i is-baragraffau (3) i (6), yr uchafswm y gellir ei adennill mewn etholiad Cynulliad ar gyfer y treuliau a bennwyd yn is-baragraff (1) (gan gynnwys treuliau a dynnwyd mewn perthynas â pherson sy'n ysgwyddo dyletswyddau swyddog llywyddu ar y diwrnod pleidleisio o ganlyniad i analluogrwydd y swyddog llywyddu a benodwyd eisoes) mewn perthynas â'r swyddog llywyddu ym mhob gorsaf bleidleisio yw £141.00.

(3) Mewn unrhyw etholiad cyffredin caiff y swm a grybwyllwyd yn is-baragraff (2) ei gynyddu ag £37.00 pan geir mewn perthynas ag etholaeth Cynulliad bleidlais mewn etholiad etholaeth ac etholiad rhanbarthol.

(4) Pan geir mewn lle pleidleisio mwy nag un orsaf bleidleisio caiff y swm a grybwyllir yn is-baragraff (2) ei gynyddu ag £8.00 mewn perthynas ag un swyddog llywyddu yn unig yn y gorsafoedd pleidleisio yn y lle pleidleisio hwnnw.

(5) Mewn perthynas â swyddog llywyddu y mae is-baragraff (4) yn gymwys caiff y swm sydd wedi'i grybwyll yn is-baragraff (2) ei gynyddu ag £8.00 pan fo is-baragraff (3) hefyd yn gymwys.

(6) Caiff y swm a grybwyllwyd yn is-baragraff (2) ei gynyddu â £37.00 pan gaiff pleidleisio mewn etholiad Cynulliad ei gyfuno â'r pleidleisio mewn etholiad llywodraeth leol o dan erthygl 14(1) neu (2) o Orchymyn 1999.

### Talu clerciaid pleidleisio mewn gorsafoedd pleidleisio

**4.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gwneud darpariaeth ar gyfer treuliau swyddog canlyniadau etholaeth mewn etholiad Cynulliad mewn perthynas â thalu clerciaid pleidleisio mewn gorsafoedd pleidleisio.

(2) Yn ddarostyngedig i is-baragraffau (3) a (4), yr uchafswm y gellir ei adennill mewn etholiad Cynulliad ar gyfer y treuliau a bennwyd yn is-baragraff (1) mewn perthynas â phob clerc pleidleisio yw £84.00.

(3) Mewn etholiad cyffredin caiff y swm a grybwyllir yn is-baragraff (2) ei gynyddu ag £21.00 pan geir mewn perthynas ag etholaeth Cynulliad bleidleisio mewn etholiad etholaeth ac mewn etholiad rhanbarthol.

(4) Caiff y swm a grybwyllir yn is-baragraff (2) ei gynyddu ag £21.00 pan fo'r pleidleisio mewn etholiad Cynulliad yn cael ei gyfuno â phleidleisio mewn etholiad llywodraeth leol o dan erthygl 14(1) neu (2) o Orchymyn 1999.

**Talu personau mewn cysylltiad â dyroddi a derbyn papurau pleidleisio drwy'r post a.y.y.b**

**5.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gwneud darpariaeth ar gyfer treuliau swyddog canlyniadau mewn etholiad Cynulliad mewn perthynas â thalu personau sydd wedi'u cyflogi mewn cysylltiad â dyroddi a derbyn papurau pleidleisio drwy'r post a'r cyfrif ac unrhyw gymorth clerigol neu gymorth arall at ddibenion yr etholiad.

(2) Yn ddarostyngedig i is-baragraffau (3) i (7), yr uchafswm y gellir ei adennill mewn etholiad Cynulliad ar gyfer y treuliau a nodwyd yn is-baragraff (1) yw £10,000.00.

(3) Mewn etholiad cyffredin caiff y swm a grybwyllir yn is-baragraff (2) ei gynyddu â £9,000.00 pan mewn perthynas ag etholaeth Cynulliad y ceir pleidleisio mewn etholiad cynulliad ac mewn etholiad rhanbarthol.

(4) Caiff y swm a grybwyllwyd yn is-baragraff (2) ei gynyddu am bob 100 pleidleisiwr, neu ffracsiwn o hynny, sydd â hawl i bleidleisio drwy'r post â £46.00 mewn perthynas ag etholiad etholaeth neu etholiad rhanbarthol heblaw am etholiad y mae is-baragraff (5) yn gymwys.

(5) Mewn etholiad cyffredin caiff y swm a grybwyllwyd yn is-baragraff (2) ei gynyddu am bob 75 pleidleisiwr, neu ffracsiwn o hynny, sydd â'r hawl i bleidleisio drwy'r post â £46.00 pan geir mewn perthynas ag etholaeth Cynulliad bleidleisio mewn etholiad etholaeth ac mewn etholiad rhanbarthol.

(6) Caiff y swm a grybwyllir yn is-baragraff (2) ei gynyddu â £468.00 ar gyfer pob ailgyfrif pleidleisiau o dan baragraff 51 neu 52 o Atodlen 5 i Orchymyn 1999.

(7) Caiff y swm a grybwyllir yn is-baragraff (2) ei gynyddu â £1,350.00 pan gaiff pleidleisio mewn etholiad etholaeth ei gyfuno gyda'r pleidleisio mewn etholiad llywodraeth leol o dan erthygl 14(1) neu (2) o Orchymyn 1999.

**Talu personau mewn cysylltiad â chymorth clerigol neu gymorth arall at ddibenion etholiad rhanbarthol**

**6.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gwneud darpariaeth ar gyfer treuliau swyddog canlyniadau rhanbarthol mewn etholiad rhanbarthol mewn perthynas â thalu personau sydd wedi'u cyflogi mewn cysylltiad â chymorth clerigol neu gymorth arall at ddibenion yr etholiad.

(2) Yr uchafswm y gellir ei adennill mewn etholiad rhanbarthol ar gyfer y treuliau a nodwyd yn is-baragraff (1) yw £1,082.00.